

newyddion Cymraeg Colegau Cymru #191 13 Gorffennaf 2015

Croeso i e-newyddion Colegau Cymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi [Cysylltwch](#).

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.

Do please [let us know](#) if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

Datblygiadau strategol

Llywodraeth Cymru yn cefnogi campws dysgu £55m newydd

Mae cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer canolfan ddysgu arloesol newydd yn Aberhonddu wedi cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Cyflwynodd Cyngor Sir Powys a Grŵp o Golegau NPTC 'achos strategol amlinellol' ar gyfer Campws Dysgu'r Bannau, sy'n ddatblygiad gwerth £55m, i ddarparu addysg uwchradd 11-16, academi chweched dosbarth, coleg galwedigaethol ac uned cyfeirio disgyblion.

[Mwy>>>](#)

Campws Newydd ar gyfer Aberdâr

Yn dilyn cyhoeddiad o fuddsoddiad o £20miliwn gan Lywodraeth Cymru mewn Campws newydd heb ei ail ar gyfer y Coleg yn Aberdâr, mae Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor wedi cytuno ar fraslun o ganiatâd ar gyfer y cynigion hyn.

[Mwy>>>](#)

Lansio Bagloriaeth Cymru

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru mewn partneriaeth â CBAC a Choleg Merthyr Tudful wedi lansio rhaglen Bagloriaeth Cymru ar y cyd - 'Prosiect Heriau Bagloriaeth Cymru'.

[Mwy>>>](#)

Llysgennad adeiladu

Mewn derbyniad yn y Senedd a gynhaliwyd gan Jeff Cuthbert AC yr wythnos ddiwethaf, penodwyd Wyn Prichard, Cyfarwyddwr Sgiliau a Strategaeth Adeiladu Grŵp o Golegau NPTC, yn Lysgennad Cymru ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Ieuenctid Adeiladu Cymru (CYT).

[Mwy>>>](#)

Colegau o Ansawdd

Cynllun Teithio Gwobr Platinwm

Mae Coleg y Cymoedd wedi ennill "Lefel Platinwm" yng Ngwobrau Cynllun Teithio Cymru am ei waith yn datblygu a chynnal strategaeth yn hybu arferion teithio cynaliadwy ar gampysau'r coleg.

[Mwy>>>](#)

Llongyfarchiadau!

Michael Sheen a'r Gwir Anrhydeddus Peter Hain yn derbyn Gwobrau Cymrodoriaeth Coleg

Mae'r actor Cymreig sy'n gyn fyfyrwr Coleg Afan, Michael Sheen, a'r cyn-Aelod Seneddol dros Gastell-nedd, y Gwir Anrhydeddus Peter Hain, ill dau wedi derbyn Cymrodoriaeth Grŵp o Golegau NPTC.

Roeddent yn rhannu llwyfan gyda dros 150 o fyfyrwyr yn Theatr y Dywysoges Frenhinol, Port Talbot yr wythnos ddiwethaf i ddathlu eu llwyddiannau yn seremoni wobrwyo Addysg Uwch y coleg.

[Mwy>>>](#)

Dros 400 o Goleg Sir Gâr yn graddio

Yr wythnos ddiwethaf, dyfarwyd Goleg Sir Gâr gymrodoriaeth i Dr Rosie Plummer, cyfarwyddwr y Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ochr yn ochr â 400 o fyfyrwyr oedd yn ennill graddau ôl-raddedig, graddau cyntaf, HND a HNC yn ei seremoni raddio yn Mharc y Scarlets.

[Mwy>>>](#)

Gwobr Urdd Lifrai Cymru

Mae Amelia Price, myfyriwr Paentio ac Addurno o Gampws Castell-nedd Grŵp o Golegau NPTC, wedi ennill gwobr bwysig gan Urdd Lifrai Cymru.

[Mwy>>>](#)

Arddangos gwaith y colegau a'u myfyrwyr

Arddangosfa Dwylo Dawnus

Mae 'Dwylo Dawnus', arddangosfa o ddodrefn a wnaed â llaw gan ddysgwyr mewn cwrs arbenigol yng Ngholeg Ceredigion, yng Ngaleri Neuadd Aberteifi.

[Mwy>>>](#)

AS lleol yn gosod sylfeini ar gyfer y dyfodol

Ymwelod yr Aelod Seneddol newydd-etholedig dros Gastell-nedd, Christina Rees, gyda Grŵp o Golegau NPTC yr wythnos ddiwethaf i gwrdd â myfyrwyr ac i gymryd o cipolwg ar addysg y diwydiant adeiladu.

[Mwy>>>](#)

Cyfleoedd Dysgu

Prosiect Aspire ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog

Mae dros 35 o ddisgyblion ysgol o bob rhan o Ferthyr Tudful wedi cymryd rhan yn y rhaglen 'Prosiect Aspire' newydd ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog ym mlwyddyn 6.

Nod y prosiect, sy'n canolbwyntio ar STEM, yw darparu ystod o weithgareddau cyfoethogi, ymestyn academaidd ac adeiladu tîm. Fe'i ddechreuwyd gan yr ysgol Uwchradd Afon Taf mewn partneriaeth â Choleg Merthyr Tudful.

[Mwy>>>](#)

Ymweliad barnwr yn ysbrydoli myfyrwyr y gyfraith

Cafodd darpar gyfreithwyr sy'n astudio cyfraith Safon Uwch yng Ngholeg y Cymoedd gyfle yn ddiweddar i gwrdd â Barnwr Cyflogaeth a chael cipolwg ar fyd cymhleth y farnwriaeth.

[Mwy>>>](#)

Her llwyddiant Awyr Agored

Mae myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a chymhleth yng Ngholeg Sir Gâr wedi bod yn profi eu sgiliau adeiladu tîm drwy gwblhau gwobr efydd Dug Caeredin yn llwyddiannus.

[Mwy>>>](#)
